# Dadorchuddio Patagonia: Teithio di-baid yn Ne America gan Rhys Llewelyn
# Y Cymro, Chwefror 10, 2001

Teithio. Dyma un o'm hoff ferfau i. Does dim byd gwell na chyfle i weld y byd ac ehangu gorwelion. Cyfle i flasu bwyd newydd, wynebau newydd a chael blas o sut mae gwlad yn cael ei gweinyddu neu ei chamweinyddu.

Wedi pacio fy sach ysgwydd ym mis Gorffennaf y llynedd gyda chopi o'r Lonely Planet, y Buenos Aires Herald a'r llyfr Latin America Spanish o dan fy nghesail, gadewais oerfel Trelew am fywyd oerach fyth Buenos Aires…

Cychwynnais fy antur, ar y "Que Bus", o Drelew – taith ugain awr – a drodd yn ddwy awr ar hugain o oriau melltithiol o achos yr eira. Eira ym mhobman a bysiau wedi eu gohirio i nifer o lefydd. Er 'mod i wedi mynd ddiwrnod yn hwyr, ges i ddipyn o brofiad ar y daith. Am y 10 awr gyntaf, roedd y bws yn rhewllyd fel oergell a minnau'n gwisgo fest, siwmper dew wlanog, côt gynnes ayyb ond rôn i'n fferru. Doedd y gwresogydd ddim ymlaen na dim. Wedyn, am y 12 awr i ddilyn, rôn i'n meddwl 'mod i wedi i'n nôl yn y Caribi achos roedd pawb yn socian ac yn diferu o chwys! Dyna, heb-os oedd y cynhwysion at annwyd, a dyna ddigwyddodd, maes o law.

Wedyn, hanner ffordd i Fuenos Aires deallais fod yna streic fysiau yn y brifddinas a bod y bysiau i gyd yn osgoi calon y ddinas. "¡Socorro!" meddwn yn Sbaeneg! Yr unig Sbaeneg o'n i'n ei wybod ar y pryd, am "gymorth". Diolch byth bod athrawes Saesneg o Drelew wedi rhannu bwrdd gyda mi dros fwyd, neu does wybod be fyddai wedi digwydd, achos hi oedd fy nghyfieithydd personol am weddill y daith. Trwy ryw drugaredd wyrth, cyrhaeddodd y bws ddiwedd ei daith yn ddidrafferth. Rhyddhad.

Ges i fy nghyfareddu gan brifddinas yr Ariannin. Roedd yr holl ddylanwadau Ewropeaidd yn anhygoel. Tai Eidalaidd a Ffrengig yr olwg a gorsaf drên Brydeinig wedyn yn ardal Retiro; a'r bobol hefyd yn hynod Ewropeaidd o ran edrychiad. Mae'r lle'n llawn diwylliant a hanes fel pob prifddinas arall. Bûm yn gweld amryw o lefydd diddorol megis y Cateral Metroploitana (Eglwys Gadeiriol), El Museo de Bellas Artes (Amgueddfa Celfyddyd Gain), Congreso Nacional (cartref y llywodraeth), a'r Casa Rosada (y Tŷ Pinc a chartref yr arlywydd), ardaloedd San Telmo a Recoleta, heb sôn am gant a mil o lefydd eraill. Deallais fod llawer o lygredd yn bodoli o fewn system wleidyddol y wlad. Ac er fy mod i wedi clywed llawer am ddwyn yno, wnes i ddim teimlo o dan fygythiad, heblaw am bobol yn cardota am arian ar fin y ffordd.

Mentrais dro arall i Fariloche sydd i'r gogledd o Esquel. Ar yr olwg gyntaf, llwm a di-lun oedd yr ardal o amgylch yr orsaf fysiau ond ar ôl cerdded ryw filltir a chyrraedd calon y dref, rôn i wedi gwirioni gyda'r lle. Dylanwad sgandinafaidd oedd yma, yn llawn siopau siocled, trols, llynnoedd mawr a mynyddoedd yn wyn dan yr eira – yn debyg iawn i Norwy. Ar ôl holi yn y ganolfan dwristiaeth yn y Centro Civico, llwyddais i a'm ffrind i gael gwybodaeth am lety rhad (£10 y noson) mewn gwesty nid nepell

oddi yno. Buaswn i wedi hoffi treulio rhagor o amser yma ond roedd yn rhaid croesi'r ffin drennydd i Chile.

Daliom y bws drosodd i Chile a chroesi i Puerto Mont – taith o ryw 6 awr. Cafwyd cyfle i sgwrsio gydag Americaniaid a chriw o bobol ifainc o Israel. Pawb yn sôn am eu profiadau a'u hawgrymiadau. Cawsom gyfeiriad gwesty gan Americanwr am £10 y noson – roedd ei safle yn anhygoel, ar ben bryn yn edrych i lawr ar y ddinas, ond buasem wedi gallu canfod llefydd rhatach. Roedd porthladd Angelmó, sydd 3km i'r gorllewin o ganol y ddinas, yn llawn crefftau o bob math a llefydd bwyta, "bwyd môr". Cefais gawl cranc hufennog – blasus ond hallt. Roedd golwg dlawd ar rannau o'r ddinas ond roedd y lle yn llawn cymeriad a phawb yn glên a chroesawus.



Roedd y ffyrdd yn Chile yn well na'r Ariannin, a phrisiau dillad er enghraifft, yn llawer iawn rhatach hefyd. Roedd y lle o ran natur, hinsawdd a thirwedd yn fy atgoffa o Gymru. Treuliais ddiwrnod ym Mharc Cenedlaethol Vicente Peréz Rosales, y parc cenedlaethol cyntaf a sefydlwyd yn Chile yn 1926. Un o'r atyniadau yno yw folcano Osorno, ac yng nghesail y mynydd roedd pentref bach o'r enw Petrohué. Oddi yma wnes i groesi llyn Todos Los Santos i fynd i Puella - pentref bach arall ac arosfan i nifer o dwristiaid sydd eisiau croesi'r ffin ar gwch a cherbyd drosodd i'r Ariannin. Doedd yno ddim llawer i'w weld: roedd y gwesty enfawr yno yn le da i gael paned, ac roedd y lle mor dawel nes i mi gael fy nhemtio i gysgu fel mochyn o dan goeden a chael anghofio am bawb a phopeth! Wedyn, dychwelais fin nos ar y cwch, a chael y bws o Petrohué yn nôl i Buerto Mont. Pan gyrhaeddom y ddinas, roedd mwg mawr yn hofran uwchben fel petai folcano wedi ffrwydro, ond roedd un o siopau bwyd mawr y ddinas ar dân a miloedd o bobol yn syllu'n fud arni'n llosgi. Profiad rhyfedd!

Teithiais fis Tachwedd y llynedd i Punta Tombo i weld pengwiniaid yn nythu yn eu cynefin naturiol. Penrhyn bywyd gwyllt ydi o, 107 km o Drelew. Pan es i yno roedd y mwyafrif o'r pengwiniaid yn cael siesta (yn cysgu), ond roedd rhai yn hynod o ddof ac yn malio dim am dwristiaid busneslyd fel fi.

Wedyn eleni, dychwelais am wythnos i Funeos Aires i dderbyn cwrs dwys mewn Sbaeneg. Unwaith eto, rôn i'n mwynhau'r lle i'r ymylon, er bod y gwres llethol ar brydiau yn gallu bod yn lladdfa. Llwyddais i gael apartment gyda'i berchennog yn

siarad Cymraeg. Y tro yma, ymwelais â Phuerto Madero - porthladd a adeiladwyd gyntaf yn 1898 – ond sydd lle bellach wedi ei atgyweirio a'i adnewyddu fel sy'n digwydd ym Mae Caerdydd ar hyn o bryd. Mae yno fwytai safonol, swyddfeydd a gwestai moethus, ac mae'n le gwerth ei weld. Bûm hefyd mewn tafarn Wyddelig yn ardal fusnes Retiro, a thalu trwy fy nhrwyn am beint o Kilkeny's - £6 (£4). A'r tro yma, bûm mewn caffi tango hanesyddol. Cafodd y Café Tortoni, ar Avenida De Mayo 829, ei adeiladu'n wreiddiol yn 1858, ac yma cafodd llawer o ddawnsfeydd yn ôl y sôn eu hysgrifennu. Bellach mae'r lle ar ei newydd wedd ond yn cynnwys llawer o'r pensarnïaeth gwreiddiol. Fe berfformir dawnsfeydd tango yno ar yr awr, ac roedd yn le penigamp i sgwennu a synfyfyrio dros goffi.

Be sy'n braf wrth fyw dramor yw dach chi byth yn gwybod pwy dach chi am ei gyfarfod nesaf. Ym Mhorth Madryn ddechrau'r mis, ges i'r cyfle i ddal i fyny gyda chyfaill o Fecsico dôn i heb ei weld ers 5 mlynedd, ers yr amser o'n ni'n cydweithio ag o yn America. Bellach, mae o'n gweithio ar long wyliau ac wedi teithio'r byd. Yn sicr, dyma sy'n braf wrth fyw mewn gwlad dramor.